Page 1

ClwydAlyn I *Llwybrau*

Asedau

*Trosolwg o'r Swydd*

Swyddog Rheoli Asedau

- Tua £24,000 y flwyddyn, pro rata
- Cynyddiadau cyflog blynyddol ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn costau byw
- Cyflog ar ôl cymhwyso, tua £36,000 y flwyddyn, pro rata
- V72, Llanelwy
- 37 awr yr wythnos

***Mynediad i'r llwybr:*** *Sgiliau Mathemateg a Saesneg a TG sylfaenol ac un Safon Uwch*

***Cymwysterau:*** *HNC mewn Adeiladu neu gymhwyster cyfwerth, neu brofiad perthnasol ac yn gweithio tuag at gymhwyster proffesiynol a/neu aelodaeth o'r CIOB*

LOGO in CIRCLE

Our Homes = Ein Cartrefi

Our Business = Ein Busnes

Our Residents = Ein Preswylwyr

Page 2

Cyfrifoldebau

Manylion yr Unigolyn

Diben

Mae'r Swyddog Rheoli Asedau yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu ClwydAlyn i gyflawni ei genhadaeth i drechu tlodi. Trwy ddarparu cartrefi o ansawdd da, y bydd pobl yn falch ohonynt, bydd y Swyddog Rheoli Asedau yn arwain ar sicrhau bod tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru drwy gadw golwg ar ansawdd y gwaith cynnal ymatebol a gwaith wedi'i gynllunio

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Gweithio gyda ClwydAlyn a'r contractwyr allanol ar ein rhestr enwebedig, gan gynnwys yr is-gwmnïau contractio mewnol, i ddarparu gwasanaeth cynnal cynhwysfawr i breswylwyr a chleientiaid y Cwmni, a gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer contractwyr yn yr ardal gan eu monitro, eu goruchwylio a'u cyfarwyddo.

- Deall a nodi anghenion a gofynion eiddo preswylwyr Tai ClwydAlyn drwy gynnal archwiliadau, archwiliadau cynlluniau technegol, cyfarfodydd preswylwyr ac arolygon Gwiriadau Cartrefi Iach fel sy'n briodol.
- Bod yn gyfrifol am waith cynnal a gwelliannau i eiddo yn yr ardal ddaearyddol, sy'n ymwneud â gwaith cynnal ymatebol o ddydd i ddydd a dyletswyddau rheoli asedau eraill, gan gynnwys ymdrin ag eiddo gwag yn gyflym fel sy'n briodol a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth Diogelwch Adeiladau.
- Sicrhau bod ymgynghori llawn ar bob cam yn ystod rhaglenni gwaith wedi'i gynllunio.
- Nodi arian sy'n ddyledus i ClwydAlyn yn ymwneud â materion gwaith cynnal, gan gynnwys hawliadau yswiriant, atebolrwydd contractwyr, a gwaith trwsio ad-daladwy.

**Gwybodaeth a galluoedd**

- Archwilio eiddo a nodi gwaith trwsio penodol a pharatoi rhestri o ddiffygion ac amcangyfrifon cychwynnol.
- Gallu i baratoi briffiadau a manylebau ar gyfer gwaith trwsio, addasiadau, a gwelliannau.
- Gallu i fonitro perfformiad contractwyr yn erbyn safonau a thargedau sydd wedi'u gosod ymlaen llaw, adrodd arnynt, a darparu gwybodaeth yn brydlon er mwyn coladu Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Gallu a gwybodaeth i archwilio gwaith cynnal ymatebol, fel sy'n briodol yn unol â chytundeb y trefniant gwaith Contractio mewnol, gan sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau yn brydlon ac i safon cymeradwy.
- Gallu a gwybodaeth i gynnal Gwiriadau Cartrefi Iach a pharatoi adroddiadau crynhoi.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o Reoliadau Diogelwch Adeiladau a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, a'r gallu i'w rhoi ar waith yn ymarferol mewn perthynas â gwaith adeiladu ac eiddo ac i weithio gydag amrywiaeth o gleientiaid ag anghenion amrywiol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o Reoliadau Rheoli Asbestos a Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2012.

**Gweithio gyda phobl eraill**

- Gweithio ar system rota fel "person cyswllt haen 1" i ymdrin ag ymholiadau neu awdurdodi gwaith brys os bydd asiantaeth gwasanaeth gwaith trwsio ymatebol "brys, y tu allan i oriau" yn cysylltu â chi.
- Rhoi cyngor technegol, arweiniad a gwybodaeth, cyfrannu at adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a rhoi cyngor ar wasanaethau cynnal a pherfformiad a materion yn ymwneud â'r tîm contractio mewnol.
- Datrys Problemau / Gwneud Penderfyniadau / Arloesedd
- Gallu i weithio'n effeithlon gyda phwyslais ar ddatrys problemau bob dydd, gwneud penderfyniadau, a gwybodaeth dechnegol, tra'n darparu gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian o fewn cyllidebau penodedig, rheoli adborth ac uwchgyfeirio materion lle bo'r angen a blaenoriaethu.
- Dealltwriaeth o offer gwaith symudol a sut i'w defnyddio, offer tirfesur, diweddaru systemau a rheoli stoc a chyflwr y stoc.
- Monitro, adrodd a chynorthwyo'r Pennaeth Asedau a/neu'r Swyddog Asedau Arweiniol i reoli'r gyllideb yn ymwneud â phob agwedd ar waith cynnal, tirlunio, gwresogi, gwasanaethu a gwaith profi trydanol a mecanyddol ar waith cylafaf a digyfalaf yn yr ardal ddaearyddol ddynodedig.

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn meysydd gwaith perthnasol drwy fynychu cyrsiau, seminarau a chynadleddau a datblygiad proffesiynol parhaus

**Gweithio i ClwydAlyn**

- Darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid mewnol ac allanol, cleientiaid a chydweithwyr.
- Darperir hyfforddiant i weithio'n unol â'r holl ofynion iechyd a diogelwch, gweithdrefnau'r cwmni a deddfwriaeth. Rhaid cwblhau'r holl hyfforddiant a datblygiad a ystyrir yn angenrheidiol ac sy'n gydnaws â natur y swydd.
- Disgwylir i'n holl dimau weithio yn unol â'n gwerthoedd a bod yn gyfrifol hefyd am roi arferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith.
- Efallai y gofynnir i chi ymgymryd â gwaith neu dasgau rhesymol eraill nad ydynt yn rhan o'ch gwaith arferol, gan eich rheolwr, cyfarwyddwr, tîm gweithredol neu'r bwrdd, byddai hyn yn cael ei drafod yn fanwl yn ôl yr angen.
- Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd angen i staff ddangos drwy eu gwiriad DBS nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu neu wedi'u disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon, neu rybuddion a fyddai'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl.

Page 3

**Ynglŷn â ClwydAlyn**

Cafodd ClwydAlyn, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig heb fod yn elusennol, ei sefydlu yn 1978 ac mae bellach yn rheoli dros 6,500 o gartrefi ac yn cyflogi 760 o bobl. Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau rheoli tai, gan gynnwys tai â gofal a chymorth, a gwasanaethau datblygu, trwsio a chynnal ar draws Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn)

Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd a phobl sengl, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal arbenigol a nyrsio, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli prydles, tai canolradd a thai rhent. Trosiant y Grŵp yw £64m.

Rydym yn Gymdeithas Dai uchelgeisiol ac mae ein gwerthoedd a'n cenhadaeth yn ganolog i'n holl waith. Yn ein barn ni, nid yw'n iawn bod cymaint o anghydraddoldeb a thlodi ar draws ein rhanbarth, ac rydym yn gwybod bod hyn yn cael effaith ar bob agwedd ar fywydau pobl. Bedair blynedd yn ôl, gwnaethom benderfynu rhoi'r gorau i droi pobl allan o'n cartrefi ac rydym yn defnyddio ein harian a'n dylanwad i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi ac i weithio er budd newid ar draws ein gwlad

Page 4

Manteision

Pam gweithio i ni?

Buddion Swyddi

• Ydych chi'n chwilio am gydbwysedd gwych rhwng bywyd a gwaith?

• Hoffech chi gael 25 diwrnod o wyliau blynyddol â thâl (yn cynyddu i 30 diwrnod), gyda'r cyfle i werthu/prynu rhagor o wyliau blynyddol?

• Derbyn hyd at 8% o gyfraniadau pensiwn gan eich cyflogwr.

• Ymuno â chynllun Beicio i'r Gwaith.

• Derbyn talebau gofal llygaid.

• Darperir prydau poeth am ddim i staff yn y gwaith.

• Pecyn mamolaeth gwych a llawer o fuddion eraill y cwmni.

Mae sawl ffordd o ymgeisio:

Y dull traddodiadol

Anfonwch eich CV diweddaraf atom sy'n dangos eich hanes gyrfa llawn a datganiad yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a'r sgiliau a'r profiad sydd gennych.

Anfonwch ffilm fer atom

Ffilm fer heb fod yn hirach na 3 munud yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd a'r sgiliau a'r profiad sydd gennych, ynghyd â llythyr/e-bost atodol byr

ymgeisiwch yn clwydalyn.co.uk

14 Mai yw'r dyddiad cau

Aseswyd bod Gwiriad Lefel Uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (heb y rhestr waharddedig) yn ofynnol ar gyfer y swydd hon. Bydd angen i staff ddangos drwy eu gwiriad DBS nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu neu wedi'u disbyddu, rhybuddiadau, ceryddon, neu rybuddion a fyddai'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl. Bydd unrhyw risgiau a nodir gan y gwiriad DBS yn cael eu hadolygu gan y Grŵp a chynhelir Asesiad Risg. Gall canlyniad yr Asesiad Risg olygu bod cynigion am swyddi yn cael eu tynnu'n ôl neu gall arwain at adolygu cyflogaeth staff presennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi a Gweithdrefn DBS y Grŵp sydd ar gael gan y Tîm AD